



Bore Sul Mehefin 30ain, 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma. Mae'r oedfa yng ngofal Ann Griffiths ac Allan James. Elen Griffiths sy'n cyfeilio.

Yr Wythnosau Nesaf

Gorffennaf 7ed - Sul Pentref Pentyrch, gyda Sian yn cyfeilio.

Gorffennaf 14eg - Sul y Cyfundeb, yn cael ei gynnal yn Mynydd Seion, Casnewydd am 10.30 Mae gwahoddiad cynnes iawn i ni gyd ymuno â'u cynulleidfa am oedfa deuluol, ac yn gyfle i ni ddangos ein cefnogaeth i'r criw arbennig sy'n cynnal Mynydd Seion.

Gorffennaf 21ain - Sul y Teulu, gydag Eirian, a bedyddiadau.

Gorffennaf 28ain - oedfa ym Methlehem Gwaelod y Garth, WEDYN AM YN AIL WYTHNOS RHWNG TABERNAACL A BETHLEHEM

Merched y Tabernacl

Dydd Iau, 4 Gorffennaf, Canolfan y Capel.

10.00 i'r rhai hoffai gerdded o gwmpas Efail Isaf.

11.00 paned a cyfarfod i drefnu'r rhaglen tan diwedd y flwyddyn.

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan: carolinerees2@hotmail.com neu decstio Caroline ar 07539452130

Gwaith Ieuencid y Capel

Mae Heulyn a Catrin Rees, wedi blynyddoedd lawer o arwain gwaith gyda'r ifanc yn y capel, wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi eleni. Cynhaliwyd cyfarfod brynhawn Sul diwethaf, ac fe benderfynwyd y dylid gwneud pob ymdrech i sichrau fod gwaith ieuencid yr eglwys yn parhau. Ydych chi'n nabod rhywun fyddai'n barod i fod yn rhan o dîm fydd yn gallu dod at ei gilydd i gynllunio at fis Medi eleni? Croesewir syniadau.newydd.....

Tafod y Tab

Gwahoddir cyfraniadau – newyddion, adroddiadau, ysgrifau, lluniau, hysbysebion ac yn y blaen – sy'n addas i'w cynnwys yn rhifyn Gorffennaf o'r Tafod. Y dyddiad cau i dderbyn deunyddiau yw dydd Iau 11 Gorffennaf. Anfonwch unrhyw gyfraniadau at Eleri a Gwilym (gehpengwern@yahoo.co.uk) os gwelwch yn dda.

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNAACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.

CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma.

PARTI PONTY- HELP!

Mae trefnwyr Parti Ponty yn gofyn am griw bach i helpu gadw trefn ar faes parcio Garth Olwg ar ddydd Sadwrn 13eg o Orffennaf er mwyn hwyluso'r holl weithgareddau fydd yn digwydd. Ydych chi ar gael i helpu? Plis mynnwch air gyda Geraint Rees bore 'ma. Diolch.

ELUSENNAU 2019

Dyma'r elusennau rydym yn eu cefnogi drwy gasgliad yr amlenni brown eleni: Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Adref, Ysgol Tŷ Coch, Cymorth i Ferched Cymru & CRICA (ymchwilio i Glefyd Crohn a chefnogi dioddefwyr ifanc).

Newyddion aelodau..... yn ddiweddar roedd Aneira Davies o Donteg yn 90 oed. Mae Pat Edmunds Efail Isaf yn parhau i fod yn anhwylyus, ac wedi treulio cyfnod hir yn yr ysbyty.

Cynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21

**'Wynebu Yfory
mewn Ewrop Newydd'**

★ ★

Dydd Sadwrn, 6 Gorffennaf

Capel Salem, Heol y Farchnad, Treganna,
Caerdydd CF5 1QF

Cyfranwyr:
Dr Aled Eirug
Y Parchg Gethin Rhys
Dr Elin Royles

Tâl Cofrestru: £10 ar y dydd

Gofynnir i bawb ddod â'u cinio eu hunain

Manylion llawn ar wefan C21
www.cristnogaeth21.cymru

APÊL MADAGASCAR

Mae Apêl Madagascar yn cau yn fuan iawn, ond mae cyfle o hyd i chi ddefnyddio'r amlenni bach gwyn i gyfrannu at elusennau sy'n ceisio gwella byd y bregus a'r anghenus yn un o bedair gwlad dlotaf y byd. Mae manylion yr apêl a'r elusennau ar ein gwefan: www.tabernacl.org